



## Grwpiau ymyrraeth

### Cyfri Ceredigion


Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau bach o 2-4 am 30 munud 2-3 gwaith yr wythnos i wella eu sgiliau rhifedd. Mae'r ymyrraeth yma yn datblygu eu sgiliau meddwl, eu dealltwriaeth o egwyddorion cyfrif, eu cof clywedol a gweledol ac yn datblygu eu hyder trwy chwarae gemau cyffroes, hwylus, aml-synhwyradd.



### Hwb Ymlaen

Mae Hwb Ymlaen yn cefnogi plant yn ystod eu sesiynau mathemateg ac o fewn ymyrraeth ychwanegol. Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau bach am 40-50 munud. Mae'r ymyrraeth yma yn datblygu hyder y plant ac yn canolbwyntio ar wendidau / camsyniadau penodol mewn mathemateg. Mae'r plant yn cael cyfle i chwarae gemau cyffroes a mynd dros eirfa ac adnoddau penodol.

### TRANDEP / SATPIN



Dyma ymyrraeth ar gyfer helpu plant i adnabod ac adeiladu seiniau. Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau bach o 2-6 plentyn am 30 mynd 2-3 gwaith yr wythnos. Mae'r sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau clywedol a sgiliau gweledol y plant trwy chwarae gemau a gweithgareddau ymarferol.

### Grŵp Darllen

Dyma sesiynau darllen grŵp ble mae'r plant yn cael y cyfle i ddarllen amrywiaeth o destunau ar y cyd gan drafod ac ateb cwestiynau yn seiliedig ar y testun. Prif ffocws y sesiynau yw sicrhau dealltwriaeth y plant ac i ddatblygu hyder a mwynhad wrth ddarllen.



### Cylchredau Synhwyradd

Mae'r ymyrraeth aml-synhwyradd yma yn canolbwyntio ar ddatblygu hyder a'r teimlad o lwyddiant o fewn sesiynau strwythuredig. Mae'r plant yn cymryd rhan o fewn grwpiau bach o 3-6 plentyn am 20-30 munud 3-5 gwaith yr wythnos. Mae 3 rhan penodol i'r sesiwn sef-

- Tanio; e.e. sgipio, bownsio ar drampet, eistedd ar bêl ffitrwydd, loncian, neidio o le uchel i le is.
- Trefnu; e.e. troi'n unionsyth, cwrs antur balans, ymarferion rhuban gymnasteg, bwrdd siglo, gweithgareddau 'Seimon yn dweud'.
- Tawelu; e.e. gwrthrychau trwm o amgylch cwrs o gônau, y planc, cropian drwy dwannel.



### Grŵp Lego

Dyma ymyrraeth aml-synhwyradd ar gyfer datblygu sgiliau datrys problemau a chydweithio gan wella cymhelliant y plant. Mae'r plant yn gweithio o fewn grwpiau o 3 ac mae rôl benodol gyda phob un sef; beiriannydd, darganfyddwr darnau ac adeiladwr. Mae angen i'r plant gwrandao ar ei gilydd a chymryd tro. Maen nhw'n mynd dros y rheolau ac ar y diwedd maen nhw'n cael cyfle i werthuso'r model a thrafod y broses fel grŵp.



### ELSA

Dyma ymyrraeth emosiynol sy'n cefnogi plant ar lefel 1:1 unwaith yr wythnos am 30 munud. Mae'r sesiynau yma yn amrywio tipyn yn dibynnu ar anghenion y plant ond yn canolbwyntio ar adnabod a mynegi emosiynau. Mae'r ymyrraeth yma yn rhoi cyfleoedd i'r plant siarad, datblygu hyder y a datblygu strategaethau ar gyfer ymdopi mewn sefyllfaoedd gwahanol.

